

# Proffil poblogaeth Bwletin ymchwil

## Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol

Rhif 10
Hydref 2021



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau sut gallwn wella'r bwletin hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol
Bodlondeb,
Conwy, LL32 8DU.
E-bost: uned.ymchwil@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 576246

**Diweddariad nesaf – hydref 2022**

# Proffil poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy – bwletin ymchwil blynyddol

## Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Penawdau** **3**

**Rhan 1: Poblogaeth presenol** **5**
Amcangyfrifon poblogaeth ddiweddaraf 5
Ardaloedd cymharol 6
Newid dros amser 6

**Rhan 2: Poblogaeth y dyfodol** **8**
Amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 8
Cyfyngiadau'r amcanestyniadau poblogaeth 9

**Rhan 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth** **11**
Genedigaethau a ffrwythlondeb 12
Marwolaethau a marwoldeb 14
Mudo 15

**Rhan 4: Proffil oedran** **18**
Plant 19
Poblogaeth oedran gweithio (16-64) 20
Oedran 65 a throsodd 21
Yr henoed iawn 22
Pyramidau poblogaeth 22

**Rhan 5: Poblogaeth ar gyfer ardaloedd bychain / taeniad daearyddol** **25**
Amlder poblogaeth 25
Newid poblogaeth 26
Strwythur poblogaeth 27

**Rhan 6: Cymharu mesuriadau poblogaeth** **30**
Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 30
Cyfrifiad poblogaeth 31
Cofrestr meddyg teulu y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol 32
Cofrestr etholiadol 34
Ffynonellau gweinyddol – y cyfrifiad ysgol 35

**Ffynonellau data** **37**

Atodiad 1.1 – amlder poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2020 i
Atodiad 1.2 – cyfanswm poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2010-20 ii
Atodiad 1.3a – strwythur poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2020 iii
Atodiad 1.3b – strwythur poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2020 iv
Atodiad 2.1 – amlder poblogaeth ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned, 2020 v
Atodiad 2.2 – cyfanwsm poblogaeth ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned, 2010-20 vi
Atodiad 2.3a – strwythur poblogaeth ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned, 2020 vii
Atodiad 2.3b – strwythur poblogaeth ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned, 2020 viii
Atodiad 3.1 – cyfanwsm poblogaeth ar gyfer is-ardaloedd strategol ac ardaloedd cymharol, 2010-2020 ix
Atodiad 3.2a – strwythur poblogaeth ar gyfer is-ardaloedd strategol ac ardaloedd cymharol, 2020 x
Atodiad 3.2b – strwythur poblogaeth ar gyfer is-ardaloedd strategol ac ardaloedd cymharol, 2020 xi

## Cyflwyniad

Dyma'r bwletin diweddaraf mewn cyfres a fydd yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol.

Mae'r bwletin yn edrych ar wybodaeth ddemograffig allweddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gyflwyno'r data diweddaraf, cyd-destun hanesyddol a sylwebaeth ar yr hyn y mae'r data yn ei ddangos. Mae'n amlinellu rhai o brif ddarganfyddiadau amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 ar gyfer poblogaeth a mudo ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, ac yn edrych ar amcanestyniadau poblogaeth 2018 a gafodd eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd ffynonellau data newydd yn cael eu hychwanegu at y proffil fel y byddant ar gael.

Mae atodiadau sy'n dangos poblogaeth fesul ward (rhanbarth etholiadol) a chyngor cymuned ar gael ar ddiwedd y bwletin hwn.

Mae'r rhan fwyaf o ffigyrau yn y tablau wedi'u talgrynnu i'r 100 neu 50 agosaf. Efallai na fydd niferoedd yn gwneud cyfanswm oherwydd y talgrynnu.

**Mae llawer o'r data yn y bwletin hwn am y cyfnod cyn dechrau pandemig Covid19 ac felly nid yw'n ystyried ei effaith. Ni fydd rhywfaint o ddata ar gyfer ail hanner 2020 ar gael tan ganol 2022 ar y cynharaf.**

## Penawdau

- Amcangyfrifir mai maint poblogaeth preswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2020 oedd 118,200 o bobl. Rhwng canol 2019 a chanol 2020 amcangyfrifir bod cyfanswm y bobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu tua 1,000 neu 0.8%.
- Ers 2010 mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynyddu 2,600, sy'n 3.1% – cyfartaledd o 0. 3% y flwyddyn, er nad yw cyfraddau newid wedi bod yn gyfartal dros y cyfnod. Yn yr un cyfnod tyfodd poblogaeth Cymru 3.9% a thyfodd poblogaeth y Deyrnas Unedig 6.9%.
- Rhwng canol 2019 a chanol 2020 roedd y newid mewn poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy o ganlyniad i:
  - newid naturiol negyddol o -600 o bobl (1,000 o enedigaethau a 1,600 o farwolaethau);
  - cynnydd mudo net o 1,550 o bobl (daeth tua 5,050 o bobl i Fwrdeistref Sirol Conwy i fyw a gadawodd tua 3,500 o bobl).
- Mae cyfraddau ffrwythlondeb a chyfraddau marwolaeth yn syrthio, yn cyffredinol.
- Ond, heb fudo, byddai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn lleihau oherwydd mae mwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn.
- Dros gyfnod o ddeng mlynedd, mae cyfartaledd mudo allanol net o tua -150 yn y grŵp oedran 15-29 oed bob blwyddyn.
- Mae cyfartaledd mudo mewnol net o tua +400 yn y grŵp oedran 50-64 bob blwyddyn.
- Oed canolrifol poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yw 50.0 oed (Cymru = 42.4; y DU = 40.2). Mae'r oed canolrifol wedi cynyddu o 46.6 i 50.0 mlwydd oed yn y degawd diwethaf.
- Mae 27.9% Bwrdeistref Sirol Conwy o'r boblogaeth sy'n 65 oed a hŷn yn cymharu â 21.1% yng Nghymru gyfan a 18.6% ledled y DU.
- Erbyn 2040 rhagwelir
  - os yw'r duedd yr amcanestyniad canolog yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 123,000 – cynnydd o 4,800 (4.1%) o lefelau amcangyfrif canol blwyddyn 2020.
  - os yw'r duedd amrywiolyn twf is yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 117,750 – gostyngiad o -450 (-0.4%).
  - os yw'r duedd amrywiolyn twf uwch yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 126,350 – cynnydd o 9,150 (7.8%).
  - daw cynnydd net yn y boblogaeth o fudo mewnol, oherwydd byddai newid naturiol yn unig (genedigaethau a marwolaethau) yn arwain at leihad yn y cyfanswm.
  - bydd twf poblogaeth yn y grŵp oedran 65+ oed. Bydd nifer y bobl o oedran gwaith a'r boblogaeth dan 16 oed yn lleihau.
- Mae dwysedd poblogaeth yn isel, 1.0 unigolyn yr hectar ledled y Fwrdeistref Sirol, ond mae'n cynyddu i 30 unigolyn yr hectar mewn rhai ardaloedd trefol ar yr arfordir.
- Mae'r crynoadau mwyaf o bobl 65 oed a hŷn yn y setliadau arfordirol sef Abergele, Tywyn, Llanddulas, Llandrillo-yn-Rhos, Llandudno (wardiau Craig-y-Don, Gogarth a

Phenrhyn) a Deganwy. Rhanbarth etholiadol Craig-y-Don sydd â'r gyfran uchaf o bobl 65 oed a hŷn yn ei phoblogaeth (39.2%).

- Mae'r proffil oedran ieuengaf o bell ffordd yn y Fwrdeistref Sirol yn rhanbarth etholiadol/ardal cyngor cymuned Llysfaen, gyda dim ond 14.5% o'r boblogaeth yn Mae llawer o'r data yn y bwletin hwn am y cyfnod cyn dechrau pandemig Covid19 ac felly nid yw'n ystyried ei effaith. Ni fydd rhywfaint o ddata ar gyfer ail hanner 2020 ar gael tan ganol 2022 ar y cynharaf.65+ oed, a 22.6% dan 16 oed.

# Rhan 1: Poblogaeth presenol

## Amcangyfrifon poblogaeth ddiweddaraf

Amcangyfrifir mai maint poblogaeth preswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2020 oedd 118,200 o bobl.

Y gymhareb gwrywod:benywod ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yw 100:105. Cymhareb Cymru yw 100:103 (Cyfradd y DU yw 100:103 hefyd). Mae hyn yn golygu bod gennym gyfran uwch o ferched yn ein poblogaeth na’r cyfartaledd cenedlaethol.

### Tabl 1.1: poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

| | Gwrywod | Benywod | Personau |
|---|---|---|---|
| **Pob oedran** | 57,600 | 60,600 | 118,200 |
| **0-4** | 2,750 | 2,500 | 5,250 |
| **5-9** | 3,150 | 3,000 | 6,150 |
| **10-14** | 3,200 | 3,100 | 6,300 |
| **15-19** | 3,000 | 2,750 | 5,700 |
| **20-24** | 3,000 | 2,650 | 5,600 |
| **25-29** | 3,000 | 2,850 | 5,800 |
| **30-34** | 3,000 | 2,950 | 5,950 |
| **35-39** | 2,850 | 3,050 | 5,900 |
| **40-44** | 2,850 | 2,850 | 5,650 |
| **45-49** | 3,300 | 3,600 | 6,900 |
| **50-54** | 4,000 | 4,400 | 8,400 |
| **55-59** | 4,350 | 4,750 | 9,150 |
| **60-64** | 4,100 | 4,450 | 8,550 |
| **65-69** | 3,850 | 4,250 | 8,100 |
| **70-74** | 4,250 | 4,450 | 8,700 |
| **75-79** | 3,050 | 3,300 | 6,350 |
| **80-84** | 2,000 | 2,600 | 4,600 |
| **85-89** | 1,250 | 1,800 | 3,050 |
| **90+** | 700 | 1,450 | 2,100 |
| **0-15** | 9,750 | 9,100 | 18,850 |
| **16-64** | 32,800 | 33,600 | 66,400 |
| **65+** | 15,100 | 17,850 | 32,950 |
| **85+** | 1,900 | 3,250 | 5,150 |

## Ardaloedd cymharol

Mae preswylwyr y Fwrdeistref Sirol cymaint â 3.7% o boblogaeth Cymru, a 0.2% o boblogaeth y Deyrnas Unedig.

Mae gennym gyfran uwch o unigolion 65+ oed yn y boblogaeth nag unrhyw un o'n awdurdodau cyfagos, sef 27.9% o'r boblogaeth, a chyfradd llawer uwch na chyfartaledd y DU, sef 18.6%. Gellir dod o hyd i gyfrannau'r un mor uchel o boblogaeth oed pensiwn mewn ardaloedd y gwyddir sy'n lleoliadau ymddeol, fel arfordir de orllewin Lloegr.

Mae'r gyfran uchel o henoed yn ein poblogaeth hefyd yn arwain at y ffaith bod cyfrannau plant (0-15 oed) a phreswylwyr oedran gwaith (16-65 oed) yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.

### Tabl 1.2: poblogaeth ar gyfer ardaloedd cymharol, 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS

| | Cyfanswm poblogaeth | Gwrywod | Benywod | 0-15 oed | 16-64 oed | Oed 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BS Conwy** | 118,200 | 48.7% | 51.3% | 16.0% | 56.2% | 27.9% |
| **Ynys Môn** | 70,450 | 49.3% | 50.7% | 16.9% | 56.6% | 26.5% |
| **Gwynedd** | 125,150 | 49.6% | 50.4% | 16.6% | 60.6% | 22.8% |
| **Sir Dinbych** | 96,650 | 49.3% | 50.7% | 18.0% | 57.7% | 24.3% |
| **Sir Fflint** | 156,850 | 49.2% | 50.8% | 18.4% | 60.4% | 21.2% |
| **Wrecsam** | 136,050 | 50.4% | 49.6% | 19.1% | 60.5% | 20.4% |
| **Cymru** | 3,169,600 | 49.3% | 50.7% | 17.8% | 61.2% | 21.1% |
| **Prydain fawr** | 65,185,700 | 49.4% | 50.6% | 18.9% | 62.4% | 18.7% |
| **Y Deyrnas Unedig** | 67,081,250 | 49.4% | 50.6% | 19.0% | 62.4% | 18.6% |

## Newid dros amser

Rhwng canol 2019 a chanol 2020 amcangyfrifir bod cyfanswm y bobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu tua 1,000 neu 0.8%. Fel arfer mae boblogaeth y Bwrdeistref Sirol yn cynyddu ychydig flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ers 2010 mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynyddu 3,500, sy'n 3.1% – cyfartaledd o 0.3% y flwyddyn, er nad yw cyfraddau newid wedi bod yn gyfartal dros y cyfnod. Yn yr un cyfnod tyfodd poblogaeth Cymru 3.9% a thyfodd poblogaeth y Deyrnas Unedig 6.9%.

Mae rhagor o wybodaeth am newid dros amser (gan gynnwys pyramidiau poblogaeth) yn adran 4 y bwletin hwn.

## Tabl 1.3: amcangyfrifon poblogaeth 1981-2020

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; Cyfrifiad poblogaeth, ONS

| | BS Conwy | Cymru | Prydain Fawr | DU |
|---|---|---|---|---|
| **1981** | 98,950 | 2,813,500 | 54,814,500 | 56,357,450 |
| **1986** | 101,400 | 2,810,950 | 55,110,350 | 56,683,850 |
| **Cyfrifiad 1991*** | 106,300 | 2,835,050 | 54,888,850 | - |
| **1991** | 107,950 | 2,873,000 | 55,831,350 | 57,438,650 |
| **1996** | 107,900 | 2,891,300 | 56,502,600 | 58,164,350 |
| **Cyfrifiad 2001*** | 109,600 | 2,903,100 | 57,103,900 | 58,789,200 |
| **2001** | 109,650 | 2,910,250 | 57,424,200 | 59,113,000 |
| **2006** | 113,000 | 2,985,650 | 59,083,950 | 60,827,050 |
| **Cyfrifiad 2011*** | 115,250 | 3,063,450 | 61,371,300 | 63,182,100 |
| **2011** | 115,350 | 3,063,750 | 61,470,850 | 63,285,150 |
| **2012** | 115,550 | 3,074,050 | 61,881,400 | 63,705,050 |
| **2013** | 115,900 | 3,082,400 | 62,275,950 | 64,105,650 |
| **2014** | 116,400 | 3,092,050 | 62,756,250 | 64,596,750 |
| **2015** | 116,450 | 3,099,100 | 63,258,400 | 65,110,050 |
| **2016** | 116,800 | 3,113,150 | 63,785,900 | 65,648,050 |
| **2017** | 116,850 | 3,125,150 | 64,169,400 | 66,040,250 |
| **2018** | 117,200 | 3,138,650 | 64,553,900 | 66,435,550 |
| **2019** | 117,200 | 3,152,900 | 64,903,150 | 66,796,800 |
| **2020** | 118,200 | 3,169,600 | 65,185,700 | 67,081,250 |
| **Newid 2010-2020** | 3.1% | 3.9% | 6.9% | 6.9% |
| **Newid 2019-2020** | 0.8% | 0.5% | 0.4% | 0.4% |

* Gwnaethpwyd y cyfrifiad poblogaeth ar 21 Ebrill 1991, 29 Ebrill 2001 a 27 Mawrth 2011, ac felly ni fydd niferoedd yn cyd-fynd yn union ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 1991, 2001 a 2011, oedd ar gyfer Mehefin 30.


# Rhan 2: Poblogaeth y dyfodol

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn edrych ar dueddiadau poblogaeth y gorffennol a'r presennol ac yn ceisio rhagweld sut fydd y boblogaeth yn edrych yn y dyfodol os bydd y tueddiadau hyn yn parhau. Yn 2020 cynhyrchodd Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru set o amcanestyniadau yn seiliedig ar nodweddion y boblogaeth ar lefel awdurdod unedol yn 2018.

## Amcanestyniadau poblogaeth sail-2018

### Siart 2.1: amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, 1991-2043

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2018, Llywodraeth Cymru




Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o amcanestyniadau amrywiol, yn seiliedig ar ragdybiaethau gwahanol o nodweddion twf poblogaeth yn y dyfodol. Mae'r prif amcanestyniad (canolog) yn seiliedig ar duedd mudo 5 mlynedd, ac yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo poblogaeth yn y cyfrifau asesu gwariant safonol sy'n pennu dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, a gytunir arnynt pob 3 blynedd. Mae dau amcanestyniad arall, neu 'amrywiolion', hefyd ar gael ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad[1]. Maent yn seiliedig ar senarios eraill yn y dyfodol o ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo o'u cymharu â'r prif amcanestyniad. Mae'r amrywiolion yn cynnwys amrywiolyn 'poblogaeth isel'[2], ac amrywiolyn 'poblogaeth uchel'[3]. Mae amcanestyniadau ar gyfer Y DU yn defnyddio'r duedd mudo 5 mlynedd.

[1] Mae'r rhain yn mynegi'r ansicrwydd ynghylch amcanestyniadau, ond nid ydynt yn cynrychioli uchafswm neu isafswm o dueddiadau demograffig yn y dyfodol.
[2] Seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo isel.
[3] Seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo uchel.

Mae'r prif amcanestyniadau a'r amrywiolyn twf uwch yn gweld poblogaeth BS Conwy yn tyfu bob blwyddyn tan ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad (2043). Mae'r amrywiolyn twf is yn dangos poblogaeth Conwy yn cynyddu yn raddol bob blwyddyn nes 2029, wedi hynny bydd cyfanswm y boblogaeth yn gostwng.

Erbyn 2040 rhagwelir:

- os yw'r duedd twf canolog yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 123,000 – cynnydd o 4,800 (4.1%) o lefelau amcangyfrif canol blwyddyn 2020. Rhagwelir y bydd Bwrdeistref Sirol Conwy yn 3.6% o boblogaeth Cymru ac ychydig dan 0.2% o boblogaeth y DU, sy'n debyg i'r ffigyrau bresennol. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu 3.6% yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod, a 6.8% ar draws y DU.
- os yw'r duedd amrywiolyn twf is yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 117,750 – gostyngiad o -450 (-0.4%).
- os yw'r duedd amrywiolyn twf uwch yn parhau, y bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 126,900 – cynnydd o 8,700 (7.4%).

### Tabl 2.1: amcanestyniadau poblogaeth 2020-2040

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2018, Llywodraeth Cymru; amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol, sail-2018, ONS

| | BS Conwy prif amcan-estyniad | BS Conwy twf is | BS Conwy twf uwch | Cymru prif amcan-estyniad | DU prif amcan-estyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| **2020 (amcangyfrif canol blwyddyn)** | 118,200 | 118,200 | 118,200 | 3,169,600 | 67,081,250 |
| **2025** | 119,200 | 118,400 | 119,800 | 3,185,850 | 68,413,850 |
| **2030** | 120,450 | 118,550 | 121,900 | 3,222,650 | 69,624,050 |
| **2035** | 121,700 | 118,350 | 124,250 | 3,254,600 | 70,667,700 |
| **2040** | 123,000 | 117,750 | 126,900 | 3,284,300 | 71,641,700 |
| **Newid 2020-2040** | 4.1% | -0.4% | 7.4% | 3.6% | 6.8% |
| **Newid blynyddol cyfartaledd** | 0.2% | 0.0% | 0.4% | 0.2% | 0.3% |

## Cyfyngiadau'r amcanestyniadau poblogaeth

Dim ond un dyfodol posibl yw'r amcanestyniadau. Maent yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol – mae amcanestyniadau yn ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol yn unig ac yn gweld beth fydd yn digwydd os bydd y tueddiadau hynny yn parhau. Os yw'r cyfnod lle mesurwyd y duedd yn anrheolaidd, efallai na fydd yn rhoi'r darlun llawn (gweler 'Mudo' yn adran 3 isod).

Felly gall amcanestyniadau 'ddyddio' yn gymharol gyflym. Cynhyrchwyd y set ddiwethaf o amcanestyniadau ar gyfer 2018, ac ni fydd y set nesaf o amcanestyniadau poblogaeth swyddogol (a fydd yn ôl pob tebyg yn defnyddio data 2021) yn cael eu cyhoeddi cyn 2023. Ond, mae amcanestyniadau poblogaeth yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Er bod amcanestyniadau ac amcangyfrifon poblogaeth

yn 'cyd-fynd' a'i gilydd yn 2018, erbyn cynhyrchu amcangyfrifon 2020 roedd mân amrywiaeth rhwng yr amcanestyniadau poblogaeth ac amcangyfrif yr ONS o'r cyfrif.

**Tabl 2.2: cymharu amcanestyniadau poblogaeth ac amcangyfrifon poblogaeth**

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2018, Llywodraeth Cymru; amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol, sail-2018, ONS

| | BS Conwy prif amcan-estyniad | BS Conwy twf is | BS Conwy twf uwch | Cymru prif amcan-estyniad | DU prif amcan-estyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif poblogaeth 2020** | 118,200 | 118,200 | 118,200 | 3,169,600 | 67,081,250 |
| **Amcanestyniad poblogaeth am 2020** | 117,700 | 117,600 | 117,750 | 3,146,150 | 66,832,800 |
| **Gwahaniaeth** | -500 | -550 | -450 | -23,450 | -248,400 |
| **% gwahaniaeth** | -0.4% | -0.5% | -0.4% | -0.7% | -0.4% |

Nid yw elfennau polisi yn cael eu cynnwys yn y amcanestyniadau, hyd yn oed os gwyddir am y rhain yn barod.

Nid yw amcanestyniadau yn wirionedd eithaf – gall nifer o ffactorau na allwn eu rheoli neu nad ydym yn gwybod amdanynt effeithio ar ddeinamig y boblogaeth: Ni allwn fod wedi rhagweld y pandemig byd eang diweddar a mudo gan weithwyr Dwyrain Ewrop yn dilyn cytundeb yr UE, er enghraifft, ond mae'r ddau wedi cael effaith ar lif y boblogaeth. Gallwn hyd yn oed ddylanwadu ar y dyfodol trwy ein penderfyniadau ein hunain. Bydd rhoi cymeradwyaeth ar gyfer datblygu tir cyflogaeth yn gallu denu gweithwyr a'u teuluoedd i'r ardal, er enghraifft.


Mae rhagor o wybodaeth am strwythur oedran poblogaeth y dyfodol yn adran 4 y bwletin hwn.

# Rhan 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth

Rhwng canol 2019 a chanol 2020 roedd y newid mewn poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy o ganlyniad i:

- newid naturiol negyddol o -600 o bobl (1,000 o enedigaethau a 1,600 o farwolaethau);
- cynnydd mudo net o 1,550 o bobl (daeth tua 5,050 o bobl i Fwrdeistref Sirol Conwy i fyw a gadawodd tua 3,500 o bobl).

**Siart 3.1: cydrannau newid yn y boblogaeth, 2000/01 i 2019/20**
Ffynhonnell: cydrannau newid yn y boblogaeth, Population Estimates Unit, ONS




Nid yw poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn disodli ei hun yn naturiol. Gyda marwolaethau dros gyfnod o ddeng mlynedd yn gyfartaledd o 1,550 y flwyddyn a genedigaethau cyn lleied â 1,100 byddai poblogaeth BS Conwy yn lleihau tua 450 unigolyn y flwyddyn os na fyddai mudo mewnol i'r ardal.

Mae nifer y genedigaethau a'r marwolaethau yn gymharol sefydlog bob blwyddyn. Mae mudo yn gyfran newid poblogaeth mwy cyfnewidiol sy'n anodd ei fesur, ac anoddach fyth i'w ragfynegi.

Mae'r set ddata hon yn cynnwys data hyd at ddiwedd Mehefin 2020 ac felly nid yw'n ystyried effaith Covid 19. Ni fydd rhywfaint o ddata ar gyfer ail hanner 2020 ar gael tan ganol 2022 ar y cynharaf.

### Tabl 3.1: cydrannau newid yn y boblogaeth
Ffynhonnell: cydrannau newid yn y boblogaeth, Population Estimates Unit, ONS

| | Canol 2019 i ganol 2020 | Canol 2010 i ganol 2020 |
|---|---|---|
| **Poblogaeth ar ddechrau'r cyfnod (A)** | **117,200** | **114,700** |
| Ychwanegu genedigaethau | 1,000 | 10,800 |
| Tynnu marwolaethau | 1,600 | 15,250 |
| **Newid naturiol (a)** | -600 | -4,450 |
| Ychwanegu mudo mewnol | 5,050 | 50,850 |
| Tynnu mudo allanol | 3,500 | 43,300 |
| **Mudo net (b)** | 1,550 | 7,550 |
| **Newidiadau eraill (c)*** | 0 | 400 |
| **Cyfanswm newid (B) (a + b + c)** | 1,000 | 3,500 |
| **Poblogaeth ar ddiwedd y cyfnod (A+B)** | **118,200** | **118,200** |

* mae newidiadau eraill yn cynnwys addasiadau ar gyfer newidiadau na ellir eu priodoli rhwng y Cyfrifiadau

Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 50 agosaf. Efallai na fydd niferoedd yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

## Genedigaethau a ffrwythlondeb

Yn 2020 ganwyd 950 o fabanod i breswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd hun tua 50 yn llai o enedigaethau nag yn 2019.

### Tabl 3.2: genedigaethau a ffrwythlondeb, 2020
Ffynhonnell: vital statistics table VS1, ONS

| | BS Conwy | Cymru | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|---|
| **Cyf. genedigaethau byw** | 950 | 28,650 | 613,950 |
| **Cymhareb G:B (2019)** | 1.14 | 1.05 | 1.06 |
| **Cyfradd enedigaeth amrwyd** | 8.1 | 9.0 | 10.3 |
| **GFR** | 56.7 | 50.9 | 55.1 |
| **TFR** | 1.69 | 1.47 | 1.58 |

**Nodwch:** dyma'r data ar gyfer blwyddyn galendr 2020 ac nid yw'n cymharu yn uniongyrchol â'r data yn nhabl 3.1, sydd ar gyfer canol blwyddyn i ganol blwyddyn 2019/20

**Diffiniadau**
Cyfradd enedigaeth amrwyd = y 1000 preswylwyr.

Mae'r cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol (GFR – general fertility rate) yn nodi nifer y genedigaethau byw i bob 1,000 o fenywod 15-44 oed.


Cyfartaledd y gyfradd ffrwythlondeb (TFR – total fertility rate) yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Ar ôl cyfnod hir o leihau, mae lefelau ffrwythlondeb yn Lloegr a Chymru wedi dechrau cynyddu yn y 2000au cynnar. Fodd bynnag, yn y 2010au maent wedi dechrau gostwng eto ac mae'n bosibl bod y cyfnod o gynnydd wedi ei achosi gan newid diwylliannol gyda chenhedlaeth o ferched yn dewis peidio â chael plant tan eu 20au hwyr/30au cynnar.

Mae lefelau ffrwythlondeb BS Conwy wedi dilyn yn fras y tueddiad hwn, ac amcangyfrifir gyda'r patrwm ffrwythlondeb presennol y bydd y ddynes "arferol" yn cael 1.69 o blant yn ei bywyd. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau Cymru a Chymru & Lloegr, ond yn llawer is na'r lefel y bydd poblogaeth yn disodli ei hun yn naturiol (2.07 TFR).

Er gwaethaf cyfraddau ffrwythlondeb uwch ymysg merched o oedran beichiogi, mae'r gyfradd genedigaethau amrwd (cyfradd genedigaethau i'w cymharu â chyfanswm y boblogaeth) ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn llawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, o ganlyniad i'r strwythur oedran hŷn cyffredinol o fewn y Fwrdeistref Sirol.

**Siart 3.2: cyfraddau ffrwythlondeb, 2000-2020**
Ffynonellau: vital statistics table VS1, ONS




Mae'r set ddata hon yn cynnwys data hyd at ddiwedd Rhagfyr 2020 ac felly nid yw'n ystyried effaith Covid 19. Ni fydd y mwyafrif o fabanod wedi'u cenhedlu ar ôl mis Mawrth 2020 (pan rhoddwyd cyfnod clo cyntaf y DU ar waith) wedi cael eu geni nes 2021, ac felly byddant yn ymddangos yng nghoeddiadau data swyddogol y flwyddyn nesaf.

## Marwolaethau a marwoldeb

Bu farw 1,600 o breswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2019. Roedd hun tua 50 o farwolaethau yn llai nag yn 2019.

Mae cyfradd marwolaeth cyffredinol Bwrdeistref Sirol Conwy wedi tyfi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r gymhariaeth 10 mlynedd oedd 13.4 marwolaeth am bob 1,000 o’r boblogaeth yn 2020 o'i gymharu â 13.3 o farwolaethau am bob 1,000 o’r boblogaeth yn 2009. Mae’r gyfradd yn uchel o’i gymharu â chyfartaledd Cymru, a Chymru a Lloegr. Mae hyn oherwydd strwythur oedran hŷn ein poblogaeth.

Mae’r gymhareb marwoldeb safonedig oedran, sy’n ystyried y strwythurau oed gwahanol mewn gwahanol ardaloedd yn dangos bod cyfradd marwolaeth y Fwrdeistref Sirol yn isel o’i gymharu â chyfartaledd Cymru.

Mae'r set ddata hon yn cynnwys data hyd at ddiwedd Rhagfyr 2020 ac felly nid yw'n ystyried effaith Covid 19.

### Tabl 3.3: marwoldeb 2020

Ffynhonnell: vital statistics table VS1, ONS

| | BS Conwy | Cymru | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|---|
| **Marwolaethau** | 1,600 | 37,400 | 607,900 |
| **Gwrywod** | 850 | 18,800 | 308,100 |
| **Benywod** | 750 | 18,600 | 299,900 |
| **ASMR** | 918.2 | 1,114.6 | 1,048.3 |
| **Cyfradd farwoldeb amrwyd** | 13.4 | 11.8 | 10.2 |

**Nodwch:** mae’r data ar gyfer blwyddyn galendr 2020 ac nid yw’n cymharu yn uniongyrchol â’r data yn nhabl 3.1 sydd ar gyfer canol blwyddyn i ganol blwyddyn 2019/20.

**Diffiniadau**

Mae’r gymhareb marwoldeb safonedig oedran (ASMR – age-standardized mortality rate yn gyfartaledd pwysedig o gyfraddau marwolaeth sy’n benodol i oedran fesul 100,000, lle mai’r pwysoliad yw cyfrannau'r unigolion mewn grwpiau oedran cyfatebol, wedi’i fesur yn erbyn Poblogaeth Safonol Ewropeaidd, a fyddai’n 1,000 fesul 100,000.

Cyfradd farwoldeb amrwyd = per 1,000 preswylwyr.

Er bod disgwyliad oes adeg geni yn is na ffigyrau’r DU ar gyfer gwrywod a benywod, erbyn y bydd preswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy yn 65 oed mae eu disgwyliad oes yn uwch na chyfartaledd y DU, a chryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae’r gwelliant hwn erbyn 65 oed i’w weld yn amlwg ar gyfer gwrywod, y mae eu disgwyliad oes yn 65 oed, 2.3 mlynedd yn unig yn llai na disgwyliad oes benywod (adeg geni roedd y bwlch rhwng gwrywod a benywod yn 3.6 blynedd).

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae disgwyliad oes wedi gwella ar gyfer pob grŵp, er bod cyfradd y gwelliant wedi arafu'n sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac efallai ei bod yn dechrau gostwng, yn enwedig ar gyfer dynion (er nad oed digon o ddata i ddweud os yw hyn yn newid parhaol i'r patrwm).

## Tabl 3.4: disgwyliad oes

Ffynhonnell: period life expectancy tables, ONS

| | BS Conwy | | Cymru | | Y Deyrnas Unedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007-2009 | 2017-2019 | 2007-2009 | 2017-2019 | 2007-2009 | 2017-2019 |
| **Gwyrw - adeg geni** | 77.2 | 78.8 | 77.1 | 78.5 | 77.7 | 79.4 |
| **Gwyrw - yn 65 oed** | 17.8 | 19.2 | 17.2 | 18.3 | 17.5 | 18.8 |
| **Benyw - adeg geni** | 81.7 | 82.4 | 81.4 | 82.3 | 81.8 | 83.1 |
| **Benyw - yn 65 oed** | 20.7 | 21.5 | 19.9 | 20.7 | 20.2 | 21.1 |
| **Gwahaniaeth rhwng gwryw a benyw adeg - adeg geni** | 4.5 | 3.6 | 4.3 | 3.8 | 4.2 | 3.7 |
| **Gwahaniaeth rhwng gwryw a benyw adeg - yn 65 oed** | 2.8 | 2.3 | 2.7 | 2.3 | 2.7 | 2.4 |

**Nodwch:** disgwyliad oes adeg geni yw'r oedran bywyd disgwyliedig ar gyfer babanod sy'n cael eu geni yn y cyfnod hwnnw a disgwyliad oes 65 oed yw'r blynyddoed bywyd ychwanegol y gall rhywun 65 oed ddisgwyl eu cael.

## Mudo

Mudo yw'r newid poblogaeth sy'n cael yr effaith fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol. Heb gynnydd net o fudo mewnol, ni fyddai'r boblogaeth yn disodli ei hun yn naturiol a byddai nifer y bobl sydd yn byw yn yr ardal yn lleihau bob blwyddyn, oherwydd bod tua 400 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn. Ond, mae lefelau mudo yn amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac maent yn anodd eu mesur ac yn anodd eu rhagweld.

Rhwng canol 2019 a chanol 2020 profodd Bwrdeistref Sirol Conwy gynnydd mudo net o 1,550 o bobl (daeth tua 5,050 i Fwrdeistref Sirol Conwy i fyw a gadawodd tua 3,500 o bobl). Roedd mudo net tua 1,000 yn fwy o bobl nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn wahaniaeth mwy na byddwn yn ei ragweld fel arfer, ac mae'n bennaf wedi'i achosi gan ffigyrau allfudo llai. Mae'n debygol o fod yn ganlyniad i lai o symud oherwydd pandemig Covid-19. Mae'r gwahaniaeth ar gyfer data canol 2020 yn arbennig o amlwg ymysg oedolion ifanc (15-24 oed) lle roedd gostyngiad mewn allfudiad a chynnydd mewn mewnfudiad, efallai yn ganlyniad iddynt yn dychwelyd i gartrefi eu rhieni yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf.

Dros y 10 mlynedd diwethaf bu mudo net blynyddol ar gyfartaledd tua 750 o bobl i mewn i Fwrdeistref Sirol Conwy bob blwyddyn. Ond, mae mudo yn gydran newid poblogaeth gyfnewidiol ac mae wedi amrywio rhwng ffigwr net o –50 a +1,550 o unigolion dros y 20 mlynedd diwethaf. Gall hyn fod yn broblem wrth ddefnyddio mudo i helpu i ragweld newid poblogaeth yn y dyfodol. Bydd dewis setiau gwahanol o flynyddoedd i roi tuedd yn y gorffennol yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol iawn, fel y gwelir yn y tabl isod.

## Tabl 3.5: cynnydd mudo net ar gyfartaledd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy dros gyfnodau o bum mlynedd


Ffynhonnell: Cydrannau newid poblogaeth ONS ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn

| | Mudo net blynyddol ar gyfartaledd |
|---|---|
| **Canol 2015-canol 2020 – cyfartaledd blynyddol (mwyaf diweddar)** | 860 |
| **Canol 2007-canol 2012 – cyfartaledd blynyddol (isaf)** | 400 |
| **Canol 1999-canol 2004 – cyfartaledd blynyddol (uchaf)** | 1,150 |

I gael gwared ag ychydig o'r amrywiaeth, wrth edrych ar strwythur oedran y mudwyr rydym wedi defnyddio cyfartaledd 10 mlynedd. Mae oed cymharol y strwythur mudwyr yn llawer mwy sefydlog na chyfanswm cyfrif i mewn neu allan, felly mae'r cyfartaledd deng mlynedd yn rhoi awgrym da o'r patrwm mudo.

## Siart 3.3: proffil oed mudwyr ar gyfartaledd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2010/11 i 2019/20

Ffynonellau: internal and international migration flow data, ONS




Mae'r rhan fwyaf o grwpiau oedran yn gweld cynnydd net mewn poblogaeth oherwydd bod mwy o fudo mewnol na mudo allanol. Ond, mae cynnydd mawr mewn mudo allanol yn y grwpiau oedran 15-29. Does dim sefydliad addysg uwch ym Mwrdeistref Sirol Conwy, felly mae'r rhan fwyaf o bobl sydd eisiau mynd i'r brifysgol neu addysg uwch yn 18 oed yn gorfod gadael yr ardal. Hwn hefyd yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o ddatblygu yn economaidd ac yn gymdeithasol, am geisio gwaith

a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal. Mae'r grŵp oedran hwn wedi datblygu yn gynyddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae eu maint ac effaith eu mudo allanol hefyd wedi tyfu. Fel cyfartaledd 10 mlynedd, mae'r oedran 15-29 yn 41% o fudwyr allanol.

Mae'r cynnydd ym mhroffil oed mudwyr mewnol yn y grŵp oedran 20-24 yn awgrymu bod rhai o'r bobl ifanc hyn yn dychwelyd i'r ardal pan fyddant wedi gorffen eu haddysg. Ond, nid yw pawb sy'n gadael yn eu harddegau hwyr neu eu hugeiniau yn dychwelyd i'r ardal, ac mae hyn yn cynyddu cyfartaledd proffil oedran hŷn ein strwythur poblogaeth. Mae tua 1,750 o bobl yn y grŵp oedran 15-24 yn gadael Bwrdeistref Sirol Conwy bob blwyddyn a dim ond tua 1,600 yn symud i mewn[4].

### Tabl 3.6: cyfran mudo ym Mwrdeistref Sirol Conwy, fesul grŵp oedran (cyfartaledd 2010/11 i 2019/20)

Ffynonellau: internal and international migration flow data, ONS

| | Mewnfudwyr | Allfudwyr |
|---|---|---|
| **Cyfanswm mudwyr** | 5,100 | 4,350 |
| **0-14 oed** | 13.0% | 11.6% |
| **15-29 oed** | 31.5% | 40.6% |
| **30-49 oed** | 24.5% | 23.4% |
| **50-64 oed** | 17.4% | 11.7% |
| **Oed 65+** | 13.6% | 12.7% |
| **Oed 75+** | 5.0% | 6.5% |

Er bod mudo mewnol net o bobl yn eu 30au hwyr i'w 40au, nid yw'n cydbwyso'r golled net o oedolion ifanc, ac mae'n arwain at anghydbwysedd yn ein strwythur poblogaeth. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn yn adran 4 yr adroddiad, sy'n edrych ar broffil oedran y Fwrdeistref Sirol.

Mae chwydd mewn mudo mewnol yn y grwpiau oedran cyn ymddeol – mae unigolion 50 i 64 oed yn gymaint â 17.5% o'r mudwyr mewnol. Yn y 10 mlynedd diwethaf, mae cynnydd blynyddol o 400 unigolyn ar gyfartaledd wedi bod mewn mudo net yn y grŵp oedran hwn. Mae mudo net yn y grŵp oedran 65-69 hefyd. Ar gyfartaledd, o 70 oed a hŷn mae mudo mewnol a mudo allanol yn cydbwyso.

Mae mudo wedi ei effeithio gan sawl ffactor nad oes gennym reolaeth arnynt ar lefel lleol, fel polisi economaidd cenedlaethol neu dueddiadau cymdeithasol tuag at ymddeol dramor. Gall ddigwyddiadau unigol neu ddigwyddiadau nad ydym wedi'u rhagweld gael effaith sylweddol ar fudo fel llif y mudwyr economaidd o Ddwyrain Ewrop a welwyd ar ôl cytundeb yr UE yn 2004 neu arafu mudiad mewnol a rhyngwladol ar ôl dirywiad economaidd 2008. Mae hefyd yn anodd rhagweld beth fydd yr effaith ar fudiad y boblogaeth o ddigwyddiadau, megis Brexit. Yn sicr mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar fudo, gan nad yw pobl yn gallu symud mor hawdd ag o'r blaen, ond nid ydym yn gwybod eto beth fydd yr effeithiau hirdymor ar batrymau mudo – yn rhyngwladol nac o fewn y DU. Felly mae angen i ni fod yn ofalus wrth geisio dehongli tueddiadau mudo.

[4] Cyfartaledd ac eithrio ffigyrau afreolaidd canol 2020 = 1,700 o bobl yn allfudo a 1,450 y mewnfudo

## Rhan 4: Proffil oedran

Oed canolradd (yr oed lle mae hanner y boblogaeth yn hŷn a hanner yn iau) poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yw 50.0 oed. Oed canolradd presennol Cymru yw 42.4, a 40.4 ar gyfer y DU. Mae hyn yn golygu bod ein poblogaeth ni yn sylweddol uwch na Chymru, a'r DU. Mae'r oedran canolradd wedi cynyddu o 46.6 i 50.0 mlynedd yn ystod y ddegawd ddiwethaf.

### Tabl 4.1: oedran canolrif, cymharebau dibyniaeth a chymharebau gwyrw:benyw, 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS;

| | BS Conwy | Cymru | DU |
|---|---|---|---|
| **Oedran canolrif** | 50.0 | 42.4 | 40.4 |
| **Cymhareb dibyniaeth** | 78.0 | 63.5 | 60.3 |
| **Cymhareb dibyniaeth henaint** | 49.6 | 34.5 | 29.9 |
| **Cymhareb gwryw:benyw** | 105.2 | 102.8 | 102.5 |
| **0-15 oed** | 93.7 | 95.2 | 95.1 |
| **16-64 oed** | 102.6 | 100.6 | 100.5 |
| **Oed 65+** | 118.2 | 116.8 | 118.9 |
| **Oed 85+** | 170.1 | 171.5 | 171.6 |

**Diffiniadau**
Oedran canolrif – yr oed lle mae hanner y boblogaeth yn hŷn a hanner yn iau.

Cymhareb dibyniaeth – nifer y bobl yn y boblogaeth sydd ddim o oedran gweithio ar gyfer bob 100 o bobl sydd mewn oed gweithio. Diffinir poblogaeth oedran gwaith fel unigolion 16 i 64 oed.

Cymhareb dibyniaeth henaint – nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl sydd mewn oed gweithio. Diffinir poblogaeth oedran gwaith fel unigolion 16 i 64 oed.

Cymhareb gwryw:benyw – nifer y benywod yn y boblogaeth ar gyfer bob 100 o wrywod

Rhoddir dadansoddiad o strwythur oed a rhyw'r boblogaeth isod, fel sylwebaeth a hefyd fel pyramidiau poblogaeth anodedig. Mae'r dadansoddiad yn edrych ar boblogaeth y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Cyfrifir poblogaeth y dyfodol yn defnyddio'r prif amcanestyniad gan Lywodraeth Cymru, sef ei amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar sail ffigyrau 2018. Mae data ar gyfer grwpiau oedran eraill ar gael ar gais.

**Tabl 4.2: grwpiau oedran bras ar gyfer poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol (prif amcangyfrif), sail-2018, Llywodraeth Cymru

| | 2010 | 2020 | 2030 | 2040 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | | | | |
| **Cyf. poblogaeth** | 114,700 | 118,200 | 120,450 | 123,000 |
| **0-15 oed** | 19,150 | 18,850 | 18,100 | 17,750 |
| **16-64 oed** | 67,600 | 66,400 | 63,500 | 61,750 |
| **Oed 65+** | 27,900 | 32,950 | 38,850 | 43,500 |
| **Oed 85+** | 4,200 | 5,150 | 6,050 | 7,850 |
| **Fel canran cyfanswm poblogaeth** | | | | |
| **Cyf. poblogaeth** | 100.0% | 100.0% | 100.0% | 100.0% |
| **0-15 oed** | 16.7% | 16.0% | 15.0% | 14.4% |
| **16-64 oed** | 59.0% | 56.2% | 52.7% | 50.2% |
| **Oed 65+** | 24.3% | 27.9% | 32.3% | 35.4% |
| **Oed 85+** | 3.7% | 4.4% | 5.0% | 6.4% |

## Plant

Diffinnir plant fel unigolion yn y boblogaeth sydd dan 16 oed.

Yn 2020 roedd 18,850 o bobl dan 16 oed ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

- Rhwng 2019 a 2020 gostyngodd nifer y bobl yn y boblogaeth dan 16 oed -0.7%. Yn y cyfnod deng mlynedd rhwng 2010 a 2020 lleihaodd nifer y bobl dan 16 oed o tua 300 o bobl, lleihad o -1.5%.
- Mae nifer y plant yn y boblogaeth wedi bod yn lleihau yn raddol dros y ddegawd ddiwethaf, gan adlewyrchu'r lleihad yn nifer y babanod a aned ar ddiwedd y 1990au / dechrau'r 2000au a'r dychwelyd at y duedd hon o gyfraddau genedigaeth is yn yr wyth mlynedd diwethaf fel ei gilydd.
- Mae'r grŵp oedran hwn yn 16.0% o'r boblogaeth o'i gymharu â 16.2% yn 2019 a 16.7% yn 2010. Erbyn 2040 rhagwelir y byddai yn 14.4% o'r boblogaeth yn unig.
- Mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy o 16.0% dan 16 oed yn cymharu ag 17.8% yng Nghymru gyfan ac 19.0% ledled y DU.
- Cymhareb gwrywod:benywod ar gyfer plant ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw 100:93.7. Mae hyn yn cymharu â chyfraddau Cymru 'r DU. Nid yw'r gymhareb yn union gyfartal, oherwydd mae mwy o fechgyn yn cael eu geni na merched.

Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 yn rhagweld y bydd nifer y plant yng Nghonwy yn:

- cynyddu ychydig rhwng canol 2020 a chanol 2021;
- dechrau lleihau o ganol 2022 i ganol 2039 ac wedyn cynyddu ychydig.
- Disgwylir y bydd nifer y bobl dan 16 oed ym Mwrdeistref Sirol Conwy tua 17,750 erbyn 2040. Mae hyn yn lleihad o -1,150 (-6.2%) ar ffigyrau 2020.

Mae'r duedd gyffredinol tuag at boblogaeth sy'n lleihau yn y grŵp oedran hwn oherwydd bod nifer y genedigaethau mewn unrhyw flwyddyn yn llai na nifer y plant sy'n cyrraedd 16 ac yn gadael y grŵp oedran hwn.

## Poblogaeth oedran gweithio (16-64)

Poblogaeth oedran gweithio yw unigolion 16 i 64 oed. (Newidiwyd diffiniad cenedlaethol y grŵp oedran hwn yn ddiweddar i ystyried y newidiadau bwriedig i oedran pensiwn gwladol ar gyfer merched. Wrth gymharu ag adroddiadau blaenorol, y gall 'poblogaeth oedran gweithio' gyfeirio at grŵp oedran ychydig yn wahanol).

Yn 2020 roedd 66,400 o bobl o oedran gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

- Rhwng 2019 a 2020 cynyddodd nifer y bobl o oedran gweithio 1.5%. Mae hyn yn mynd yn groes i'r patrwm diweddar o niferoedd llai yn y grŵp oedran hwn, a gall fod yn effaith dros dro yn sgil llai o symud ymysg oedolion. Yn y cyfnod deng mlynedd rhwng 2010 a 2020 lleihaodd nifer y bobl oedran gweithio gan -1,250 o bobl, lleihad o -1.8%.
- Mae'r grŵp oedran hwn yn 56.2% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 55.9% yn 2019 a 59.0% yn 2010. Erbyn 2040 rhagwelir y bydd yn 50.2% o'r boblogaeth.
- Mae 56.2% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n 16-64 oed yn cymharu â 61.2% yng Nghymru gyfan a 62.4% ledled y DU. Mae hyn yn gymharol isel, ac yn arwain at gymhareb ddibyniaeth uchel – hynny yw, cymhareb y bobl oedran gweithio i unigolion sy'n 'ddibynnol' yn theoretig ar y boblogaeth oedran gwaith. Yn 2020 cymhareb ddibyniaeth CBS Conwy oedd 100:78.0. Yng Nghymru roedd yn 100:63.5 (cymhareb y DU yw 100:60.3). Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Y gymhareb gwrywod:benywod ar gyfer y grŵp oedran hwn yw 100:102.6; y cymhareb ar gyfer Cymru gyfan a'r DU yw 100:100.6 a 100:100.5 yn y drefn honno.

Mae amcanestyniadau 2018 Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y nifer o bobl oedran gwaith ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn:

- lleihau bob blwyddyn at 2038, ac wedyn cynyddu ychydig.
- Disgwylir y bydd nifer y bobl o oed gwaith ym mhoblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy tua 61,750 erbyn 2040. Dyma leihad o -4,650 (-7.0%) o'i gymharu â ffigyrau 2019.

Mae nifer y bobl yn y grŵp poblogaeth oedran gweithio yn cael ei effeithio yn arbennig gan y mudo allanol o oedolion ifanc yn y grŵp oedran 18-24 24 a symudiad carfan fawr y 'baby boom' ar ôl yr Ail Ryfel Byd o oedran gwaith wrth iddynt gyrraedd oedran ymddeol.

## Oedran 65 a throsodd

Yn 2020 roedd 32,950 o bobl 65 oed a hŷn ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

- Rhwng 2019 a 2020 cynyddodd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn y boblogaeth 1.4%. Yn y cyfnod deng mlynedd rhwng 2010 a 2020 cynyddodd y grŵp oedran 65+ oed 5,050 o bobl, sy'n gynnydd o 18.0%.
- Mae'r grŵp oedran hwn yn 27.9% o'r boblogaeth o'i gymharu â 27.9% yn 2019 a 24.3% yn 2010. Erbyn 2040 rhagwelir y byddant yn 35.4% o'r boblogaeth.
- Mae 27.9% Bwrdeistref Sirol Conwy o'r boblogaeth sy'n 65 oed a hŷn yn cymharu â 21.1% yng Nghymru gyfan a 18.6% ledled y DU. Gellir dod o hyd i gyfraddau yr un mor uchel o boblogaeth oedran ar ôl ymddeol dim ond mewn ardaloedd y gwyddir sy'n leoliadau ymddeol, fel arfordir de orllewin Lloegr.
- Mae'r gyfradd uchel o'r henoed yn ein poblogaeth hefyd yn arwain at gyfraddau plant (0-15 oed) a phreswylwyr oed gweithio (16-65 oed) sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU. Hwn hefyd yw'r ffactor mwyaf yn ein cymhareb dibyniaeth uchel.
- Y gymhareb gwrywod:benywod ar gyfer y grŵp oedran hwn yw 100:118.2. Mae hyn ychydig yn is na'r gyfradd ar gyfer y DU (100:118.9) ac yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan (100:116.8). Erbyn 2040 disgwylir i'r gymhareb syrthio i 100:114.7 ar gyfer y Fwrdeistref Sirol fel y bydd cyfraddau goroesi gwrywod yn gwella.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn:

- cynyddu yn barhaus tan 2043 (diwedd y cyfnod rhagweld). Bydd y gyfradd cynyddu ar ei huchaf rhwng canol 2024 a chanol 2031 (bron 15%). Bydd y gyfradd twf yn arafu'n arwyddocaol ddiwedd y 2030au.
- Disgwylir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn ym mhoblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy tua 43,500 erbyn 2040. Dyma gynnydd o 10,550 (32.1%) ar ffigyrau 2019.

Mae'r cynnydd yn nifer y bobl 65 oed a hŷn yn bennaf oherwydd dwy ffactor; i ddechrau, gwelliannau mewn cyfraddau marwoldeb sy'n golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail, y ffaith bod y garfan 'baby boom' mawr a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio. Erbyn diwedd y cyfnod rhagweld bydd y grŵp oedran hwn hefyd yn cynnwys y bobl o'r ail 'baby boom' yn nechrau'r 1960au.

## Yr henoed iawn

Diffinir yr henoed iawn fel unigolion yn y boblogaeth sy'n 85 oed a hŷn. (Mae'r grŵp hwn hefyd wedi'i gynnwys yn y grŵp poblogaeth '65 oed a hŷn' sy'n cael ei drafod uchod).

Yn 2020 roedd 5,150 o bobl 85 oed a hŷn ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

- Rhwng 2019 a 2020 cynyddodd nifer yr unigolion henoed iawn yn y boblogaeth 2.7%. Yn y cyfnod deng mlynedd rhwng 2010 a 2020 cynyddodd y boblogaeth henoed iawn am 950 o bobl, sy'n gynnydd o 23.1%.
- Mae'r grŵp oedran hwn yn 4.4% o'r boblogaeth o'i gymharu â 4.3% yn 2019 a 3.7% yn 2010. Erbyn 2040 rhagwelir y byddant yn 6.4% o'r boblogaeth.
- Mae 4.4% Bwrdeistref Sirol Conwy o boblogaeth 85 oed a hŷn yn cymharu â 2.6% yng Nghymru gyfan a 2.5% ledled y DU.
- Y gymhareb gwrywod:benywod ar gyfer yr henoed iawn ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw 100:170.1. Ar gyfer Cymru y gymhareb yw 100:171.5 a 100:171.6 ar gyfer Cymru & Lloegr. Erbyn 2039 disgwylir i'r gymhareb yn y Fwrdeistref Sirol syrthio i 100:134.1 wrth i gyfraddau goroesi gwrywaidd wella.

Rhagwelir y bydd nifer yr henoed iawn ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn:

- Cynyddu bob blwyddyn hyd at ddiwedd y cyfnod rhagweld. Bydd y gyfradd gynyddu ar ei huchaf rhwng 2028-2034.
- Disgwylir y bydd nifer y bobl 85 oed a hŷn ym mhoblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy tua 7,850 erbyn 2040. Mae hyn yn gynnydd o 2,700 (52.2%) ar ffigyrau 2020.


Datblygiad y garfan fawr o 'baby boomers' yr Ail Ryfel Byd i'r grŵp oedran hwn erbyn diwedd y cyfnod rhagweld yw'r prif reswm dros y cynnydd helaeth, yn ogystal a gwelliannau disgwyliedig mewn cyfraddau marwoldeb.


## Pyramidau poblogaeth

Ffordd arall o edrych ar strwythurau poblogaeth – ac yn enwedig y newidadau yn y strwythurau dros amser – yw defnyddio pyramidau poblogaeth. Ar y ddwy dudalen nesaf mae pryamidau poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer blynyddoedd 2010 (y gorffennol), 2020 (y presennol), 2030 a 2040 (y dyfodol), i roi awgrym o sut y mae'r boblogaeth wedi newid/sut y gall newid dros gyfnod o 30 mlynedd.

## Siart 4.1: pyramidau poblogaeth (strwythur oedran) ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2018, Llywodraeth Cymru








**Pyramid poblogaeth 2010**

- Ddim yn byramid o gwbl – siart poblogaeth annodweddiadol hyd yn oed yn y Byd Gorllewin sy’n heneiddio
- Cyfraddau genedigaeth isel yn yr 1990au a 2000au – nifer fechan o blant
- Rhan helaeth o’r boblogaeth yn 18 oed i 30au canolog – pobl ifanc yn gadael yr ardal ar gyfer addysg uwch neu resymau economaidd a chymdeithasol eraill
- Chwydd o amgylch yr oedran 40au canolog – ‘baby boom’ dechrau’r 1960au
- Chwydd tua 60 oed – ‘baby boom’ ar ôl yr Ail Ryfel Byd
- Bandiau oed blynyddoedd sengl yng ngrŵp oedran 70au o faint tebyg i flynyddoedd sengl yn y grŵp oedran 0-9 oed (40au, 50au a 60au yn fwy)
- Mae nifer y merched yn dechrau mynd yn fwy na nifer y dynion yn y grŵp oedran 30au hwyr
- Tua 1,450 90+ oed – mae llawer mwy o ferched na dynion yn y grŵp oedran hwn


**Pyramid poblogaeth 2020**

- Mae’r pyramid yn dechrau edrych mwy fel madarch, yn fwy ar y top
- Mae’r grŵp oedran ‘coll’ 18 i 20au hwyr wedi ehangu i gynnwys y rhai yn eu 40au canolog – awgrymu nad yw’r unigolion sy’n gadael yn eu harddegau/20au cynnar yn dychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywyd
- ‘Baby boomers’ 1960au rŵan yn eu 50au
- ‘Baby boomers’ ar ôl yr Ail Ryfel Byd rŵan yn eu 60au hwyr i 70au canolog
- Mwy o bobl yn mhob band oedran blwyddyn sengl o 47-77 nag unrhyw un o’r bandiau oedran blwyddyn sengl 0-46
- Mae llawer mwy o ferched na dynion yn y grŵp oedran 40au hwyr




## Pyramid poblogaeth 2030

- Anghydbwysedd amlwg rhwng sylfaen a thop y 'pyramid'
- Cyfradd geni isel yn parhau – nifer y plant yn parhau i leihau (nid yw'r cynnydd bychan yn 2010au yn ddigon i gydbwyso'r grŵp oedran hŷn)
- Effaith mudo allanol oedolion ifanc (a ddim yn dychwelyd) rŵan yn effeithio grwpiau oedran hyd at y canol 50au. Effaith ar gyfraddau geni oherwydd bod llai o ferched o oedran cael plant.
- 'Baby boomers' ar ôl yr Ail Ryfel Byd rŵan yn y eu 70au a 80au
- Mwy o bobl ym mhob band oedran blwyddyn sengl o 56-83 nag ym mhob un ond dau o'r bandiau blwyddyn sengl 55 oed neu'n iau
- Mae'r oed lle bydd mwy o ferched na dynion yn codi i tua canol y 50au oed wrth i gyfraddau goroesi dynion wella
- Dros 2,400 o bobl yn 90+ oed – mwy o ferched na dynion ond mae'r bwlch yn lleihau




## Pyramid poblogaeth 2040


- Sylfaen y siart wedi'i dandorri.
- Adlais o effaith mudo allanol oedolion ifanc ym mlynyddoedd cynnar y ganrif yn ymestyn i'r grŵp oedran 60au
- 'Generation X' yr 1960au rŵan yn eu 60au hwyr/70au canolog. Mae hyn yn golygu bod dau garfan geni mawr iawn rŵan yn y grŵp oedran ar ôl ymddeol (mae'r garfan ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn cyrraedd eu 80au hwyr)
- Mae mwy o bobl ym mhob band oedran blwyddyn sengl o 65-79 oed nag unrhyw un o'r bandiau oed blynyddoedd sengl 0-64 oed. Mae'n arwain at amrywio'r gymarebau dibyniaeth yn helaeth.
- Mwy o unigolion 84 oed na babanod newydd eu geni
- Dros 3,500 o bobl 90+ oed (ac oddi ar raddfa siart) – mae'r bwlch rhwng dynion a merched yn lleihau ymhellach

# Rhan 5: Poblogaeth ar gyfer ardaloedd bychain / taeniad daearyddol

## Amlder poblogaeth

### Map 5.1: amlder poblogaeth fesul dosbarthau etholiadol, 2020

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS; Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, CBSC




Amlder poblogaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol = 1.0 unigolyn yr hectar

Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 118,200 o breswylwyr (amcangyfrif canol 2020). Mae tua 38% o'r arwynebedd a 4% o'r boblogaeth ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Mae amalder poblogaeth yn isel, 1.0 unigolyn yr hectar ledled y Fwrdeistref Sirol gyfan, ond mae hyn yn cynyddu i dros 30 o unigolion yr hectar mewn rhai ardaloedd trefol ar yr arfordir.

Mae'r belt arfordirol cul yn cynnwys tua 90% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol gyda Llandudno a Bae Colwyn fel y ddau brif ardal drefol. Setliadau arfordirol eraill pwysig yw Abergele, Conwy, Bae Cinmel, Tywyn, Cyffordd Llandudno, Penmaenmawr, Llanfairfechan a Bae Penrhyn.

Mae poblogaeth ardal wledig BS Conwy ar wasgar. Y prif setliadau yw tref marchnad Llanrwst a phentrefi Betws-y-Coed, Betws yn Rhos, Eglwysbach, Llanfairtalhaiarn, Llansannan, Llangernyw, Pentrefoelas a Cherrigydrudion.

Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos dwysedd poblogaeth. Mae tablau sy'n dangos dwysedd poblogaeth ar lefel rhanbarth etholiadol (ED) a chyngor cymuned hefyd ar gael yn atodiadau 1.1 a 2.1.

## Newid poblogaeth

### Tabl 5.1: twf poblogaeth uchaf ac isaf ar gyfer rhanbarthau etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2010-20

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS

| | Newid | |
|---|---|---|
| | % | Nifer |
| Conwy | 26.1% | 1,050 |
| Deganwy | 25.1% | 1,000 |
| Marl | 24.5% | 950 |
| Pensarn | 14.3% | 400 |
| Llanddulas | 9.3% | 150 |
| Pentre Mawr | 6.3% | 200 |
| Bryn | 5.8% | 100 |
| Capelulo | -5.0% | -50 |
| Gower | -5.1% | -50 |
| Colwyn | -6.5% | -300 |
| Gogarth | -7.2% | -250 |
| Betws-y-Coed | -7.2% | -100 |
| Eirias | -9.0% | -300 |

Nid yw'n syndod bod llawer o ardaloedd gyda'r twf poblogaeth uchaf rhwng 2010 a 2020 yn setliadau ar hyd yr arfordir, lle mae mwyafrif o dai, cyflogaeth a

gwasanaethau Bwreistref Sirol Conwy wedi'u crynhoi. Mae amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain ONS yn dangos bod y boblogaeth wedi cynyddu 27.2% yn ward Conwy a gan 25.1% yn ward Deganwy, gyda ward Marl (Cyffordd Llandudno) hefyd yn gweld tyfiant o dros 20% yn y cyfnod. Roedd tyfiant o dros 5% hefyd mewn pedwar rhanbarth etholiadol arall ar hyd yr arfordir.

Yn nhermau rhifau llawn, y tyfiant poblogaeth fwyaf oedd yn ward gyda chynnydd o 1,050 yng nghyfanswm poblogaeth pob ward rhwng 2010 a 2020. Profodd wardiau Deganwy a Marl (Cyffordd Llandudno) lefelau twf uchel hefyd yn yr un deng mlynedd (1,000 a 950 yn y drefn honno). Ar yr un pryd syrthiodd y boblogaeth gan -300 yr un yn wardiau Eirias Colwyn (mae'r ddwy ward yn Hen Golwyn).

Y newid poblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2010-2020 oedd +3.1%.

Rhwng 2019 a 2020 y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth oedd yn rhanbarth etholiadol Pentre Mawr yn Abergele (+5.1%, neu tua 180 o bobl) ac roedd y lleihad mwyaf mewn poblogaeth yn rhanbarth etholiadol Trefriw (-2.9% neu lai na -50 o bobl). Bu i boblogaeth Bwrdeistref Conwy cynyddu 1,000 (+0.8%).

Mae tablau yn dangos newid poblogaeth ar gyfer pob rhanbarth etholiadol (ward) ac ardal cyngor cymuned ar gael yn atodiadau 1.2 a 2.2

## Strwythur poblogaeth


Yn gyffredinol, mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy strwythur poblogaeth sy'n hŷn na chyfartaledd y DU, hyd yn oed ar lefel ardal fechan. Mae amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain ONS yn dangos bod y crynoadau mwyaf o bobl 65 a hŷn, o ran niferoedd a chyfran o'r boblogaeth gyfan, yn setliadau arfordirol Abergele, Tywyn, Llanddulas, Llandrillo-yn-Rhos, Llandudno (wardiau Craig-y-Don, Gogarth a Phenrhyn) a Deganwy. Mae gan yr holl ardaloedd hyn fwy na 30% o'r boblogaeth yn y grŵp oedran 65+. Rhanbarth etholiadol Craig-y-Don sydd â'r gyfran uchaf o bobl 65 oed a hŷn yn ei phoblogaeth (39.2%). Mae'r map ar y dudalen nesaf yn nodi'r crynhoad setliadau gyda chyfraddau uchel o bobl hŷn yn eu poblogaeth.

Mae gan bob un ond tri rhanbarth etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Conwy gyfradd uwch o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn na chyfartaledd y DU o 18.5%. Y rhanbarthau etholiadol sydd â chyfraddau is na'r cyfartaledd yn y grŵp oedran 65+ oed yn eu poblogaeth yw Pensarn (Cyffordd Llandudno), Glyn (Bae Colwyn) a Llysfaen.


Ond mae gan chwech rhanbarth etholiadol yn y Fwrdeistref Sirol gyfradd uwch na'r cyfartaledd o blant yn eu poblogaeth. Y proffil oed ieuengaf o bell yn y Fwrdeistref Sirol yw rhanbarth etholiadol / cyngor cymuned Llysfaen, gyda dim ond 14.5% o'r boblogaeth yn 65+ oed, a 22.6% dan 16 oed. Llysfaen hefyd yw'r unig ward yn y Fwrdeistref Sirol lle mae'r cyfanswm o enedigaethau blynyddol yn sylweddol ac yn gyson uwch na'r marwolaethau blynyddol.

## Map 5.2: cyfran y boblogaeth 0-15 oed; a 65 oed a hŷn fesul rhanbarth etholiadol, 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS




Cyfran y boblogaeth 0-15 oed ar
gyfer y Fwrdeistref Sirol = 16.0%




Cyfran y boblogaeth 65 oed a hŷn ar
gyfer y Fwrdeistref Sirol = 27.9%

**Tabl 5.2: rhanbarthau etholiadol lle mae cyfran y boblogaeth dan 16 oed yn uwch na chyfartaledd y DU, 2020**
Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS

| | % |
|---|---|
| Llysfaen | 22.6% |
| Glyn | 21.0% |
| Gower | 21.0% |
| Colwyn | 20.8% |
| Mochdre | 20.5% |
| Pensarn | 20.1% |
| Y Deyrnas Unedig | 19.0% |
| Bwrdeistref Sirol Conwy | 16.0% |

Er nad yw crynhoad yr ardaloedd gyda chyfraddau uchel o blant yn eu poblogaeth mor amlwg ar yr arfordir ag ydyw gyda phobl hŷn, mae pump o'r chwech rhanbarth etholiadol hyn ar y llain arfordirol fwyaf poblog.

Mae tablau sy'n dangos y strwythur poblogaeth bras ar gyfer rhanbarthau etholiadol (wardiau) ac ardaloedd cyngor cymuned ar gael yn atodiadau 1.3 a 2.3.

## Rhan 6: Cymharu mesuriadau poblogaeth

Nid yw'n hawdd cyfrif nifer y bobl mewn ardal. Mae poblogaeth yn newid yn barhaus, trwy enedigaethau, marwolaethau a mudo. Nid yw unrhyw un o'r ffigyrau poblogaeth yn yr adroddiad hwn – neu sydd ar gael yn unrhyw le arall – yn gyfrif union gywir o'r boblogaeth.

Oherwydd y defnyddir data poblogaeth i wneud penderfyniadau ynglŷn â chyllid, cynrychiolaeth ac adnoddau, mae'n bwysig bod y data a ddefnyddir i fesur poblogaeth o ansawdd da. Mae data poblogaeth yn mesur y boblogaeth trwy ei faint, oed a rhyw ac mae'n sail i gyfrifo a chymharu cyfraddau, cymarebau a chanrannau rhwng grwpiau o bobl neu ardaloedd daearyddol.

Y prif ddata poblogaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad yw'r rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn swyddogol neu ddata a geir o'r rhain (fel rhagamcanion poblogaeth). Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn cael eu cyfrifo gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd ag adnoddau ac arbenigedd sylweddol yn y maes hwn.

Rhoddir cymhariaeth rhwng y rhagamcanion canol blwyddyn hyn a ffynonellau data poblogaeth eraill isod.

## Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn

**Beth ydyw?**

Maent yn amcangyfrif, ac nid yn gyfrif o'r boblogaeth bresennol, ac maent yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Mae oedi o 12 mis wrth ryddhau'r data (er enghraifft, cyhoeddwyd data ar gyfer 30 Mehefin 2020 ym mis Mehefin 2021).

Y man cychwyn ar gyfer amcangyfrif yw ffigwr poblogaeth preswylwyr canol blwyddyn y flwyddyn flaenorol ac ystyrir y newid poblogaeth trwy ychwanegu genedigaethau a dileu marwolaethau yn ystod y flwyddyn a chaniatáu ar gyfer mudo i mewn ac allan o'r ardal. Gwneir addasiadau hefyd ar gyfer grwpiau poblogaeth arbennig nad ydynt wedi eu dal gan amcangyfrifon mudo, fel y lluoedd arfog. Ceir cydran mudo rhyngwladol newid poblogaeth o ddata'r arolwg.

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gael ar gyfer cenhedloedd y DU, ardaloedd awdurdod lleol, etholaethau seneddol ac ardaloedd bwrdd iechyd lleol ac maent yn cael eu cyhoeddi gan ONS. Maent yn cael eu cynhyrchu ar gyfer blwyddyn sengl fesul oed a rhyw ar lefel ardal awdurdod lleol ac uwch.

Mae amcangyfrifon poblogaeth ONS hefyd ar gael ar gyfer rhanbarthau etholiadol (wardiau) ac ardaloedd daearyddol ystadegol, ond credir bod y rhain yn 'ystadegau arbrofol' oherwydd eu bod wrthi'n cael eu gwerthuso.

**Beth yw cyfyngiadau'r data?**

Bydd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn cael eu cyflwyno o Gyfrifiad Poblogaeth. Yn 2001 Roedd pryderon bod rhai ardaloedd – y rhai hynny sydd â chyfraddau uchel o boblogaeth symudol – wedi'u tan gyfrif. Mae canlyniadau o Gyfrifiad 2011 yn dangos mai dyma'r achos, gan fod amcangyfrifon nesaf ar gyfer 2011 gryn dipyn yn is nag amcangyfrif newydd y Cyfrifiad. Mae amcangyfrifon newydd canol blwyddyn – gan gynnwys y rhai sy'n cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn – wedi eu hailgalibro i gynnwys hyn. Ond, mae Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal

mwy o ymchwil i ddeall sut y digwyddodd y tangyfrifo ac i wella eu methodoleg rowlio ymlaen, ac fe all ganlyniadau'r gwaith hyn effeithio ar ddilysrwydd a chadernid y cyfredol.

Er bod data genedigaethau a marwolaethau yn yr amcangyfrifon yn gadarn iawn, mae data mudo yn llai cadarn. Mae mesuriadau mudo mewnol wedi gwella yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a chredir ei bod rŵan yn gymharol gadarn. Mae data mudo rhyngwladol (tramor) yn dal ei fod yn anodd ei gasglu a hyd yn oed yn fwy anodd ei briodoli i'r ardal ddaearyddol gywir. Mae gan yr ONS raglen waith i wella'r data hwn.

### Sut y gellir ei ddefnyddio i gyfrif poblogaeth?

Y rhain yw'r mesur poblogaeth swyddogol a ddefnyddir gan lywodraeth leol a chenedlaethol a sawl corff swyddogol arall. Maent hefyd yn cael eu defnyddio yn helaeth gan unigolion a chwmnïau masnachol yn y sector preifat ac academaidd.

Gellir defnyddio amcangyfrifon poblogaeth os oes angen amcangyfrif poblogaeth preswylwyr. Maent yn cael eu defnyddio pan fydd niferoedd absoliwt preswylwyr o bwysigrwydd allweddol. Gall hyn fod o ran dyrannu adnoddau ariannol, cynllunio gwasanaethau neu lunio canlyniadau arolygon.

Maent hefyd yn cael eu defnyddio pan fydd ffigyrau poblogaeth yn cael eu defnyddio fel enwaduron, er enghraifft wrth gyfrifo dangosyddion economaidd a chymdeithasol.

Mae amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn yr ONS yn ffurfio'r mewnbwn allweddol i ragamcanion poblogaeth, gan roi poblogaeth sylfaenol (blwyddyn ddechreuol ar gyfer rhagamcanion) a helpu i ffurfio rhagdybiaethau tuedd. Bydd amcangyfrifon o'r boblogaeth yn cael eu hailgalibradu a'u hadolygu'n ôl i 2011 yn dilyn cyhoeddiad data Cyfrifiad 2021 yn 2022.

## Cyfrifiad poblogaeth

### Beth ydyw?

Cyfrifiad yw'r arolwg o bob unigolyn ac aelwyd yn y wlad. Yn y DU cynhelir Cyfrifiad bob 10 mlynedd. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynnal y Cyfrifiad yn Lloegr a Chymru.

### Tabl 6.1: cymharu amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn gyda Chyfrifiad 2001 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; Cyfrifiad poblogaeth, ONS

| | Cyfanswm poblogaeth preswyl | |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn (30 Mehefin 2011)** | 115,350 | |
| **Cyfrifiad 2011 (27 Mawrth 2011)** | 115,250 | |
| **Gwahaniaeth** | -100 | -0.1% |
| **Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn (30 Mehefin 2020)** | 118,200 | |
| **Cyfrifiad 2011 (27 Mawrth 2011)** | 115,250 | |
| **Gwahaniaeth** | -2,950 | -2.5% |

Ar hyn o bryd, y data mwyaf diweddar sydd ar gael yw Cyfrifiad 2011 a gafodd ei gynnal ar 27 Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y data cyntaf o hyn ym mis Gorffennaf 2012 ac mae wedi'i ddefnyddio i ailsefydlu amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, fel y nodwyd uchod.

Mae data poblogaeth y Cyfrifiad ar gael ar gyfer pob ardal ddaearyddol weinyddol ac ystadegol ac maent yn cael eu cyhoeddi gan yr ONS.

### Pam mae'n wahanol i'r amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn a beth yw cyfyngiadau'r data hwn?

Mae Cyfrifiad 2011 rŵan deng mlynedd allan ohoni. Bydd data o Gyfrifiad 2021, a fydd yn disodli'r mesur hwn, yn dechrau cael ei gyhoeddi ar ddechrau 2022.

- Bydd yn cael ei gynnal bob deng mlynedd yn unig ac mae fwyaf defnyddiol yn y blynyddoedd cynnar ar ôl y Cyfrifiad.
- Hyd yn oed yn y flwyddyn gyntaf, bydd newid rhwng amcangyfrif poblogaeth y Cyfrifiad ac amcangyfrifiad canol blwyddyn yr un flwyddyn, gan eu bod yn cael eu cynnal ar wahanol adegau ac yn defnyddio gwahanol fethodoleg i wneud yr amcangyfrifiad.
- Mae'r tabl uchod yn dangos sut mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrif poblogaeth Cyfrifiad a'r amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn wedi cynyddu dros amser.

### Sut y gellir ei ddefnyddio i gyfrif poblogaeth?

Data poblogaeth y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell ddata poblogaeth fwyaf cynhwysfawr a chadarn ar gyfer Cymru. Mae ei ddefnydd yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad data Cyfrifiad fel bod y rhifiadur a'r enwadur o'r un cyfnod amser ac ardal ddaearyddol.

Oherwydd bod y Cyfrifiad yn casglu cymaint o wybodaeth ynglŷn â nodweddion ein poblogaeth sydd ddim ar gael yn unrhyw le arall, efallai y bydd angen defnyddio poblogaeth Cyfrifiad i gyfrifo cyfraddau/cyfrannau, yn enwedig ar lefel ardal fechan. Er enghraifft, mae cyfran y bobl sydd â salwch tymor hir yn y Fwrdeistref Sirol ar gael o Gyfrifiad 2001 yn unig.

Ar gyfer rhai setiau data, mae data Cyfrifiad yn parhau i fod yn fwy dibynnol a chadarn na data arall mwy diweddar. Mae pa mor ddefnyddiol yw'r Cyfrifiad yn dibynnu ar ba nodweddion poblogaeth sy'n cael eu mesur ac ar gyfer pa ardal - rydym yn cynghori defnyddio data Cyfrifiad wrth edrych ar ethnigrwydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, er enghraifft, ond byddem yn argymell arolygon ac amcangyfrifon mwy diweddar wrth edrych ar ffigyrau Cymru gyfan.

Y data poblogaeth yng Nghyfrifiad 2011 yw'r sail ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn swyddogol sy'n cael eu cynhyrchu rhwng Cyfrifiadau.

## Cofrestr meddyg teulu y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol

### Beth ydyw?

Mae'r cofrestr meddyg teulu yn gronfa ddata amser real sy'n cofnodi manylion pob unigolyn sydd wedi cofrestru gyda meddygfa meddyg teulu. Bob mis Mehefin bydd ffeil yn cael ei chreu, sy'n cynnwys manylion y cleifion wedi'u cofrestru wedi'u rhannu yn fandiau oedran pum mlynedd a fesul rhyw, i roi cipolwg ar y gofrestr cleifion.

Mae data cofrestr meddyg teulu ar gael ar gyfer bob awdurdod unedol ac ardal allbwn is (LSOA) yng Nghymru, ar gais gan y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol.

**Tabl 6.2: cymharu amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn gyda'r data cofrestr meddyg teulu ar gyfer y Bwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; cyfrifon cofrestrau meddyg teulu, GIG

| | Cyfanswm poblogaeth | |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn (30 Mehefin 2020)** | 118,200 | |
| **Cofrestr meddyg teulu GIG (30 Mehefin 2020)** | 118,850 | |
| **Gwahaniaeth** | 650 | 0.5% |

**Pam mae'n wahanol i'r amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn a beth yw cyfyngiadau'r data hwn?**

Mae hwn yn gyfrif o unigolion sydd wedi cofrestru gyda meddygfa meddyg teulu. Nid yw'n amcangyfrif poblogaeth.

- Mae ffigyrau poblogaeth preswylwyr yn cynrychioli nifer yr unigolion sy'n byw mewn ardal benodol, ac mae ffigyrau poblogaeth cofrestredig yn rhoi nifer y cleifion sydd wedi eu cofrestru gyda meddygfa meddyg teulu mewn ardal benodol. Gall unigolyn fyw mewn un ardal a chofrestru mewn ardal arall. Ni all unigolion gofrestru mewn dwy ardal ar yr un pryd.
- Gellir tan gyfrif rhai grwpiau oed/rhyw oherwydd nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg lleol.
  - Dynion ifanc, sengl yw'r rhai mwyaf tebygol i gael eu tan gyfrif oherwydd eu bod yn llai tebygol o gofrestru gyda meddyg teulu.
  - Gellir tan gyfrif babanod newydd eu geni oherwydd efallai nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu eto.
  - Gall unigolion tramor fod wedi'u tan amcangyfrif oherwydd efallai na fyddant yn cofrestru gyda meddyg teulu os nad oes hawl ganddynt gael triniaeth GIG.
- Bydd rhai grwpiau yn cael eu tros gyfrif.
  - Gall cyfrifon cofrestrau meddyg teulu o fyfyrwyr gael eu tros amcangyfrif, oherwydd efallai y byddant wedi cofrestru yng nghyfeiriad eu rhieni yn hytrach na'u cyfeiriad tymor. Bydd y cyfeiriad tymor yn cael ei gyfrif fel y brif breswylfa ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn, felly efallai na fydd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yr ONS a'r cofrestr meddyg teulu yn cyd-fynd.
  - Gellir tros gyfrif grwpiau oedran hŷn - yn enwedig yr hen iawn. Er bod cofnodion presennol yn gywir iawn, efallai nad yw cofrestriadau marwolaeth mewn degawdau a fu (pan oedd y broses ar bapur) wedi eu trosglwyddo i'r gofrestr meddyg teulu.
- Gall bob grŵp oedran gael eu tan gyfrif a'u trosgyfrif yn dibynnu a ydynt wedi cofrestru neu ddadgofrestru wrth symud tŷ.

### Sut gellir ei ddefnyddio i gyfrif poblogaeth?

Gellir defnyddio data cofrestr meddyg teulu i wirio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn.

Mae'r cofrestr meddyg teulu yn cofnodi symudiad cleifion. Defnyddir y data i amcangyfrif nifer y mudwyr i mewn ac allan yn ardaloedd gweinyddol y DU, ac mae'n ffynhonnell fawr o ddata mudo mewnol ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn yr ONS.

## Cofrestr etholiadol

### Beth ydyw?

Y nifer o bobl sydd wedi eu cofrestru ar y rhestr etholiadol ac felly â hawl i bleidleisio yn unrhyw flwyddyn. Mae'r rhestr etholiadol yn cael ei weinyddu gan Adran Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae data'r gofrestr etholiadol ar gael gan yr ONS ar gyfer pob ardal awdurdod unedol yng Nghymru. Gall data ar gyfer rhanbarthau etholiadol (wardiau) fod ar gael gan Gynghorau unigol.

### Tabl 6.3: cymharu amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn gyda data cofrestr etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; ystadegau etholiadol, ONS

| | 18 oed a throsodd | |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn (30 Mehefin 2020)** | 97,000 | |
| **Gofrestr etholiadol (1af Rhagfyr 2020)** | 90,400 | |
| **Gwahaniaeth** | -6,600 | -6.8% |

### Pam mae'n wahanol i amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a beth yw cyfyngiadau'r data hwn?

Mae'r gofrestr etholiadol yn gyfrif o unigolion sydd wedi cofrestru i bleidleisio. Nid yw'n amcangyfrif o'r boblogaeth.

- Mae'r gofrestr etholiadol yn gyfrif poblogaeth yn rhannol
  - Dim ond unigolion sy'n 18 oed neu hŷn (neu'n cyrraedd 18 oed yn y flwyddyn sydd i ddod) ac unigolion sydd â hawl i bleidleisio sy'n cael eu cofrestru.
  - Nid yw plant wedi'u cynnwys ar y rhestr.
  - Nid yw unigolion tramor sydd heb hawl i bleidleisio yn cael eu cofrestru, hyd yn oed os ydynt yn byw yn y DU.
  - Nid yw pawb yn cofrestru i bleidleisio hyd yn oed os oes hawl ganddynt.
  - Mae'r rheolau newydd a gyflwynwyd yn 2015 yn golygu bod unigolion bellach yn gyfrifol am gofrestru eu hunain, yn flaenorol roedd holl bleidleiswyr cymwys mewn cartref yn gallu cael eu cofrestru ar un ffurflen. Roedd hyn wedi achosi gostyngiad yn y niferoedd etholiadol i dros 800,000 ledled Cymru a Lloegr

rhwng 2015 a 2016, yn bennaf ymysg pobl ifanc a rheiny a oedd yn byw mewn tai a rennir.

- Gall y gofrestr etholiadol fod yn or gyfrif - gelwir hyn weithiau yn 'chwyddiant rhestr'
  - Mae cywirdeb y gofrestr yn dibynnu ar roi gwybod i'r adran cofrestru etholiadol os yw rhywun yn symud neu yn marw neu angen eu dileu o'r gofrestr.
  - Gall myfyrwyr sydd wedi symud o'r Fwrdeistref Sirol i astudio aros ar y rhestr yng nghyfeiriad eu rhieni, ond ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn swyddogol bydd myfyrwyr fel arfer yn cael eu cyfrif yn eu cyfeiriad tymor.
- Mae'r niferodd yn amrywio – mae nifer y bobl ar y gofrestr etholiadol fel arfer yn uwch ym mlynyddoedd etholiadau cyffredinol.

### Sut gellir ei ddefnyddio i gyfrif y boblogaeth?

Gellir defnyddio data'r gofrestr etholiadol i wirio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer poblogaeth 18 oed a hŷn.

## Ffynonellau gweinyddol – y cyfrifiad ysgol

### Beth ydyw?

Bydd y data yn dod o Gyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion (PLASC) sy'n cael ei gwblhau ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r tabl yn dangos y disgyblion ar gofrestrau ysgol yr awdurdod addysg lleol ar ddyddiad y cyfrifiad ysgol 20 Ebrill 2021[5], a bydd eu hoedrannau yn cael eu cyfrifo ar 31 Awst 2020.

### Tabl 6.4: cymharu amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn gyda data cyfrifiad ysgol Bwrdeistref Sirol Conwy

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS cyfrifiad ysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| | 4-15 oed | |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn (30 Mehefin 2020)** | 14,750 | |
| **Cyfrifiad ysgol 2019/20: 4-15 oed at 31 Awst 2020** | 13,650 | |
| **Gwahaniaeth** | -1,100 | -7.4% |

### Pam mae'n wahanol i amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a beth yw cyfyngiadau'r data hwn?

Mae'r cyfrifiad ysgol yn gyfrif o ddisgyblion sydd ar y gofrestr mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau addysg lleol. Nid yw'n amcangyfrif o'r boblogaeth.

- Mae'r cyfrifiad ysgol yn gyfrif poblogaeth rhannol
  - Mae'n ymwneud â phlant oedran ysgol yn unig (3-18 oed)

[5] Fel arfer yn cael ei gynnal ym mis Ionawr, ond cafodd ei ohirio yn 2021 oherwydd pandemig Covid-19.

- Hyd yn oed yn y grŵp poblogaeth hwn, mae data ar gyfer rhai grwpiau oedran yn llai cyflawn, wrth i blant ddechrau neu adael ysgol ffurfiol. Dim ond data ar gyfer unigolion 4-15 oed y dylid ei ddefnyddio wrth gymharu ag amcangyfrifon poblogaeth swyddogol canol blwyddyn.

- Nid yw pob plentyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad ysgol
  - Mae'n cynnwys gwybodaeth gan ysgolion awdurdodau lleol yn unig, ac nid yw'n cyfrif disgyblion mewn ysgolion annibynnol neu breifat neu unigolion sy'n cael eu haddysgu gartref.
  - Dim ond plant sy'n cael eu haddysgu yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cael eu cyfrif. Efallai na fydd yn bosibl cael gwybodaeth am unigolion sy'n teithio i ysgolion mewn awdurdodau cyfagos. Bydd hefyd yn cyfrif rhai plant sy'n byw y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ond yn cael eu haddysgu mewn ysgol ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

**Sut gellir ei ddefnyddio i gyfrif y boblogaeth**

Gellir defnyddio data cyfrifiad ysgol i wirio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer y boblogaeth rhwng 4 ac 15 oed.

## Ffynonellau data

### Amcangyfrifon poblogaeth

Canllaw gan Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar y fethodoleg sy'n cael ei ddefnyddio i greu amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn.
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/topicspecificmethodology

Gellir dod o hyd i ddata amcangyfrifon canol blwyddyn (gan gynnwys cydrannau newid data canol blwyddyn) ar wefan ONS
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates

neu ar gronfa ddata Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority

### Cyfrifiad poblogaeth

Mae gwybodaeth am Gyfrifiad y Boblogaeth ar gael yma:
https://cy.ons.gov.uk/census

### Cydrannau newid yn y boblogaeth

Mae data genedigaethau ar gael yma:
http://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths

Mae data marwolaethau ar gael yma:
http://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths

Mae mwy o wybodaeth am fudo ar gael ar wefan ONS
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/migrationwithintheuk
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration

### Amcanestyniadau poblogaeth

Mae data am ragamcaniad poblogaeth ar gyfer awdurdodau unedol yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru :
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections

### Amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain

Mwy o wybodaeth am amcangyfrifon poblogaeth rhanbarth etholiadol (ward) ac ardaloedd bychain eraill:
http://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualsmallareapopulationestimates/previousReleases

## Atodiad 1.1 – amlder poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2020

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS; Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, CBSC

| | Arwynebedd (ha) | Pob. 2020 | Personnau / hectar | Newid 2010-2020 |
|---|---|---|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol Conwy** | **113,000** | **118,200** | **1.0** | **0.0** |
| Abergele Pensarn | 250 | 2,550 | 10.9 | 0.3 |
| Bae Cinmel | 450 | 6,100 | 12.9 | 0.0 |
| Betws-y-Coed | 9,650 | 1,200 | 0.1 | 0.0 |
| Betws yn Rhos | 9,150 | 2,200 | 0.2 | 0.0 |
| Bryn | 950 | 1,900 | 2.0 | 0.1 |
| Caerhun | 7,600 | 2,050 | 0.3 | 0.0 |
| Capelulo | 500 | 1,400 | 2.8 | -0.1 |
| Colwyn | 150 | 4,300 | 24.9 | -1.7 |
| Conwy | 600 | 5,150 | 8.4 | 1.7 |
| Craig-y-Don | 300 | 3,400 | 11.9 | -0.2 |
| Crwst | 400 | 2,150 | 5.4 | 0.2 |
| Deganwy | 250 | 4,900 | 18.2 | 3.7 |
| Eglwysbach | 5,350 | 1,550 | 0.3 | 0.0 |
| Eirias | 200 | 3,250 | 14.8 | -1.5 |
| Gele | 1,250 | 4,800 | 3.8 | 0.2 |
| Glyn | 300 | 4,150 | 14.5 | -0.4 |
| Gogarth | 550 | 3,500 | 6.5 | -0.5 |
| Gower | 150 | 1,150 | 9.0 | -0.5 |
| Llandrillo yn Rhos | 300 | 7,450 | 24.1 | -0.3 |
| Llanddulas | 500 | 1,650 | 3.2 | 0.3 |
| Llangernyw | 12,400 | 1,450 | 0.1 | 0.0 |
| Llansanffraid | 1,750 | 2,250 | 1.3 | 0.0 |
| Llansannan | 12,600 | 2,000 | 0.2 | 0.0 |
| Llysfaen | 550 | 2,850 | 5.1 | 0.2 |
| Marl | 250 | 4,800 | 19.6 | 3.9 |
| Mochdre | 300 | 2,000 | 7.1 | 0.3 |
| Mostyn | 100 | 3,750 | 30.7 | 1.3 |
| Pandy | 800 | 1,900 | 2.3 | 0.1 |
| Pant-yr-afon/Penmaenan | 1,000 | 2,700 | 2.6 | -0.1 |
| Penrhyn | 750 | 4,900 | 6.3 | 0.1 |
| Pensarn | 300 | 3,200 | 11.2 | 1.4 |
| Pentre Mawr | 150 | 3,750 | 22.8 | 1.3 |
| Rhiw | 500 | 6,550 | 13.3 | 0.0 |
| Trefriw | 5,300 | 1,250 | 0.2 | 0.0 |
| Tudno | 200 | 5,100 | 23.7 | 0.8 |
| Tywyn | 550 | 2,300 | 4.0 | -0.2 |
| Uwch Conwy | 23,650 | 1,450 | 0.1 | 0.0 |
| Uwchaled | 12,900 | 1,450 | 0.1 | 0.0 |

Mae pob ffigwr yn y tabl wedi eu talgrynnu i'r 50 agosaf. Efallai na fydd niferoedd yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

## Atodiad 1.2 – cyfanswm poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2010-20

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS

| | 2010 | 2015 | 2018 | 2019 | 2020 | Newid 2010-20 | Newid 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol Conwy** | **114,700** | **116,450** | **117,200** | **117,200** | **118,200** | **3.1%** | **0.8%** |
| Abergele Pensarn | 2,500 | 2,600 | 2,500 | 2,550 | 2,550 | 2.5% | 0.9% |
| Bae Cinmel | 6,100 | 6,050 | 6,050 | 6,050 | 6,100 | -0.2% | 0.8% |
| Betws-y-Coed | 1,250 | 1,200 | 1,150 | 1,150 | 1,200 | -7.2% | 1.8% |
| Betws yn Rhos | 2,150 | 2,100 | 2,150 | 2,150 | 2,200 | 1.2% | 0.8% |
| Bryn | 1,800 | 1,800 | 1,900 | 1,900 | 1,900 | 5.8% | 0.7% |
| Caerhun | 2,000 | 2,300 | 2,050 | 2,050 | 2,050 | 3.0% | 0.8% |
| Capelulo | 1,450 | 1,250 | 1,400 | 1,400 | 1,400 | -5.0% | 1.5% |
| Colwyn | 4,600 | 4,050 | 4,200 | 4,250 | 4,300 | -6.5% | 1.3% |
| Conwy | 4,100 | 5,450 | 5,000 | 5,100 | 5,150 | 26.1% | 1.6% |
| Craig-y-Don | 3,450 | 3,450 | 3,500 | 3,450 | 3,400 | -1.4% | -2.0% |
| Crwst | 2,050 | 2,050 | 2,100 | 2,100 | 2,150 | 4.4% | 3.0% |
| Deganwy | 3,900 | 5,100 | 4,900 | 4,900 | 4,900 | 25.1% | -0.1% |
| Eglwysbach | 1,550 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,550 | 0.5% | 1.2% |
| Eirias | 3,550 | 3,000 | 3,200 | 3,200 | 3,250 | -9.0% | 1.3% |
| Gele | 4,600 | 4,700 | 4,700 | 4,750 | 4,800 | 4.5% | 1.0% |
| Glyn | 4,250 | 4,150 | 4,150 | 4,100 | 4,150 | -2.4% | 1.4% |
| Gogarth | 3,750 | 3,500 | 3,550 | 3,550 | 3,500 | -7.2% | -1.9% |
| Gower | 1,200 | 1,200 | 1,150 | 1,100 | 1,150 | -5.1% | 1.5% |
| Llandrillo yn Rhos | 7,550 | 7,600 | 7,400 | 7,400 | 7,450 | -1.4% | 0.3% |
| Llanddulas | 1,500 | 1,650 | 1,600 | 1,650 | 1,650 | 9.3% | 1.2% |
| Llangernyw | 1,450 | 1,400 | 1,400 | 1,400 | 1,450 | 0.1% | 1.3% |
| Llansanffraid | 2,200 | 2,250 | 2,250 | 2,250 | 2,250 | 0.9% | -1.1% |
| Llansannan | 1,900 | 1,950 | 2,000 | 1,950 | 2,000 | 3.0% | 1.1% |
| Llysfaen | 2,750 | 2,600 | 2,800 | 2,800 | 2,850 | 4.4% | 2.0% |
| Marl | 3,850 | 4,500 | 4,700 | 4,700 | 4,800 | 24.5% | 1.2% |
| Mochdre | 1,900 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 3.9% | 0.0% |
| Mostyn | 3,600 | 3,500 | 3,850 | 3,800 | 3,750 | 4.4% | -0.4% |
| Pandy | 1,800 | 1,900 | 1,900 | 1,850 | 1,900 | 3.7% | 1.2% |
| Pant-yr-afon/Penmaenan | 2,800 | 2,600 | 2,700 | 2,650 | 2,700 | -3.9% | 0.3% |
| Penrhyn | 4,800 | 4,800 | 4,800 | 4,800 | 4,900 | 1.1% | 1.2% |
| Pensarn | 2,800 | 2,850 | 3,000 | 3,100 | 3,200 | 14.3% | 4.2% |
| Pentre Mawr | 3,500 | 3,550 | 3,550 | 3,550 | 3,750 | 6.3% | 5.1% |
| Rhiw | 6,550 | 6,550 | 6,450 | 6,500 | 6,550 | -0.2% | 0.6% |
| Trefriw | 1,200 | 1,250 | 1,300 | 1,300 | 1,250 | 2.4% | -2.9% |
| Tudno | 4,900 | 4,900 | 5,050 | 5,050 | 5,100 | 3.4% | 0.4% |
| Tywyn | 2,400 | 2,350 | 2,300 | 2,300 | 2,300 | -4.6% | -1.3% |
| Uwch Conwy | 1,450 | 1,450 | 1,400 | 1,450 | 1,450 | 0.4% | 1.7% |
| Uwchaled | 1,400 | 1,400 | 1,400 | 1,450 | 1,450 | 3.7% | 2.0% |

Mae pob ffigwr yn y tabl wedi eu talgrynnu i'r 50 agosaf. Efallai na fydd niferoedd yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

## Atodiad 1.3a – strwythur poblogaeth ar gyfer dosbarthau etholiadol (wardiau), 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bychain arbrofol ONS

| | Nifer | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb | 0-15 | 16-29 | 30-44 | 45-64 | 65+ | Gwryw | Benyw |
| **Bwrdeistref Sirol Conwy** | **118,200** | **18,850** | **15,950** | **17,450** | **32,950** | **32,950** | **57,600** | **60,600** |
| Abergele Pensarn | 2,550 | 400 | 250 | 350 | 700 | 850 | 1,300 | 1,250 |
| Bae Cinmel | 6,100 | 1,000 | 800 | 850 | 1,700 | 1,700 | 3,050 | 3,050 |
| Betws-y-Coed | 1,200 | 200 | 150 | 150 | 400 | 300 | 600 | 600 |
| Betws yn Rhos | 2,200 | 300 | 250 | 300 | 700 | 600 | 1,050 | 1,100 |
| Bryn | 1,900 | 300 | 350 | 300 | 550 | 400 | 950 | 950 |
| Caerhun | 2,050 | 300 | 250 | 250 | 650 | 600 | 1,000 | 1,100 |
| Capelulo | 1,400 | 200 | 150 | 200 | 400 | 400 | 700 | 700 |
| Colwyn | 4,300 | 900 | 650 | 750 | 1,150 | 900 | 2,150 | 2,150 |
| Conwy | 5,150 | 850 | 700 | 800 | 1,550 | 1,250 | 2,450 | 2,700 |
| Craig-y-Don | 3,400 | 400 | 400 | 400 | 900 | 1,350 | 1,650 | 1,750 |
| Crwst | 2,150 | 350 | 300 | 300 | 550 | 600 | 1,050 | 1,100 |
| Deganwy | 4,900 | 650 | 550 | 650 | 1,300 | 1,750 | 2,450 | 2,450 |
| Eglwysbach | 1,550 | 200 | 200 | 200 | 500 | 450 | 750 | 800 |
| Eirias | 3,250 | 600 | 500 | 500 | 800 | 800 | 1,600 | 1,600 |
| Gele | 4,800 | 650 | 550 | 550 | 1,300 | 1,800 | 2,250 | 2,550 |
